Hft Flintshire

Cefnogi pobl gydag anawsterau i fyw yn fwy annibynnol a gofalu fod gan bobl mwy o ddewisiadau ledled Sir Y Fflint.

Ffoniwch ni i drafod eich cefnogaeth
01244 813448

Cyfeiriad:
Hft Flintshire
Hwb Cyfle
Chester Road West,
Queensferry, CH5 1SA

E-bost: HftFlintshire@hft.org.uk

Ein Gwaith

Cychwynnodd Hft gydweithio gyda Chyngor Sir Y Fflint ar ddiwedd 2017 er mwyn cynnig a datblygu cyfleoedd Dydd a Gwaith i bobl gydag anawsterau dysgu.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth i unigolion gydag ystod o anghenion a dyheadau ac mae tri model darparu caiff eu galw'n Gyfleoedd Dydd ar y cyd:

- **Gwasanaethau Dydd** – mae hyn yn wasanaeth gofal dydd yng Nghanolfan Glanrafon i unigolion gyda sawl anabledd ac anableddau dwys.
- **Cyfleoedd Gwaith** – Pum model busnes bach sy'n cynnig cyfleoedd gwaith gyda chefnogaeth a chyfle i ddatblygu sgiliau;
- **Abbey Metal** – Gwaith contract metel a haearn ar gyfer cwmnïau lleol - giatiau, rheiliau, balconïau, gwaith haearn unigryw, cyfosod cyfansoddion bach, trwsio eitemau i'r cyhoedd.
- **Castle Connections** – Gwasanaeth cyfosod a phacio i gwmnïau lleol – cyfansoddion rhannau trydan, pecynnau gwasanaethu ceir; rhai gweithgareddau celf a chrefft a grwp.
- **Tri Ffordd** – Planhigion tymhorol, basgedi crog, blodau garlant a Choed tân. Hefyd cytundebau Cynnal a Chadw tir, Crefftau a hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth.
- **Estuary Crafts / Crefftau** – Gwaith gwnïo a nodwyddwaith i greu dodrefn meddal – eitemau wedi eu gweu, gorchuddion clustogau, cwiltiau a charthenni. Caiff yr holl eitemau eu gwerthu yn siop Crefftau Cariad ar stryd fawr y Fflint. Gallwch archebu rhai eitemau arbennig a phersonol
- **Rowleys Pantry a Chaffi Freshfields** – caffi gyda gwasanaeth bwyta mewn neu brydau ar glud.
- **Dewisiadau Gwaith** – Gwasanaeth dod o hyd i waith, hyfforddi a chefnogi ar gyfer lleoliadau gwaith mewn busnesau a mudiadau lleol.